



Hwb Gwyddorau Bywyd | Cymru
Life Sciences Hub | Wales



**Hwb Gwyddorau Bywyd
Cymru - Eich partner
arloesedd ym maes iechyd
a gofal cymdeithasol**

**Tu fewn:
Sut y gallwn
eich cefnogi**

Eich partner arloesedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Beth yw arloesedd?

Mae arloesedd yn hanfodol i lwyddiant parhaus unrhyw sefydliad. Mae'n golygu meddwl yn wahanol – troi syniadau yn atebion a gwasanaethau a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Pam mae arloesedd yn bwysig?

Nid yw arloesedd yn bwysicach nag yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Gyda phobl yn byw'n hirach a'n proffil demograffig sy'n newid, mae'r heriau ar ein sector iechyd a gofal cymdeithasol yn cynyddu. Gan ddarparu 3,000,000 o bresenoldebau cleifion allanol, 1,000,000 o bresenoldebau A&E, a 750,000 o dderbyniadau i'r ysbyty i GIG Cymru yn 2016/17 yn unig – mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd o weithio'n fwy effeithlon ar frys, gan arbed amser ac arian.

Er mwyn ymateb i'r heriau hyn, mae angen i ni feddwl a gweithio'n fwy arloesol nag erioed o'r blaen. Mae llawer o atebion technegol a digidol ar gael; Mae angen i ni weithio'n ddeheuig i'w nodi, eu ddatblygu a'u mabwysiadu, fel bod ein gwasanaethau iechyd a gofal yn dod yn rhagweithiol, yn gynaliadwy, yn wydn ac yn abl i'w sgaldio – gan sicrhau bod dinasyddion yn cael y cyngor a'r driniaeth orau nawr, gan ddiogelu buddiannau cenedlaethau'r dyfodol.

Drwy wella ein hamgylchedd technolegol, digidol a systemau, byddwn yn gallu rhagweld iechyd gwael yn gyflymach, hwyluso mecanweithiau atal, creu systemau canfod cynharach a dulliau triniaeth newydd a gwell, a grymuso penderfyniadau hyddysg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Sut y gall Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru eich cefnogi

Ni yw eich partner arloesedd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Drwy yrru arloesedd yn y manau cywir, gallwn wella'r system gyfan – yn gyflym, ac ar raddfa genedlaethol. Trwy weithio gyda'n gilydd, byddwn yn deall ble mae'r bylchau, ac yna'n creu'r cysylltiadau i'w llenwi.



Rwyf wrth fy modd yn gweithio gyda Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, gan edrych ar ffyrdd o gynyddu a chyflwyno prosiect arloesol lleol llwyddiannus ar raddfa genedlaethol er mwyn cynyddu arbedion a lleihau gwastraff.

Sally Attwood,
Dirprwy Gyfarwyddwr,
Cynllunio Strategol a
Perfformiad, Iechyd
Cyhoeddus Cymru



Gallwn eich cefnogi drwy gydol y cylch arloesedd:

Nodi

Gallwn weithio gyda chi i nodi pa amcanion cynllun tymor canolig integredig a fyddai'n elwa o ddatrysiad technolegol, fel bod arloesedd yn sail i'ch meddylfryd o'r cychwyn.

Cysylltu

Gallwn hwyluso perthynas gysylltiol, llawn gwybodaeth, gan eich rhoi mewn cysylltiad â'r bobl cywir ar yr adeg cywir. I gefnogi hyn, rydym wedi sefydlu'r Rhwydwaith Arloesedd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru ac wedi cynnal digwyddiadau allweddol, fel ein grwpiau diddordeb arbennig arloesedd mewn iechyd.

Datblygu

Rydym yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu prosiectau cydgysylltiedig – datblygu syniadau newydd, ffres drwy roi gwybod i chi pwy a beth sydd eisoes ar gael, yn ogystal â phennu heriau i'r diwydiant o ran rhoi hwb i atebion arloesol i faterion iechyd.

Cymorth

Gallwn ddarparu hyfforddiant i chi ar ddatblygu ceisiadau yn effeithiol ac yn llwyddiannus ac egluro llwybrau at gyllid.

Gwella

Rydym yn canolbwyntio ar welliant parhaus. Felly, byddwn bob amser yn rhannu cyfleoedd ar gyfer dysgu arbenigol, datblygu gwybodaeth, arbenigedd a gwybodaeth, ac adolygu'n gyson sut mae pethau'n mynd.

Cefnogi eich agenda arloesedd

Oes gennych chi syniad gallwn ni helpu cyflymu?

Mae cyflymu yn hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg, cynhyrchion a gwasanaethau newydd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac yn eu mabwysiadu, ac yn creu gwerth economaidd parhaol yng Nghymru. Mae'n gydweithrediad arloesol rhwng prifysgolion Cymru a Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

www.lshubwales.com/cy/cyflymu



Ydych chi'n gweithio ym maes iechyd digidol?

Os mai ydw yw'r ateb, mae angen i chi ymuno ag Ecosystem Iechyd Digidol Cymru (EIDC). Mae'n rhwydwaith sy'n cysylltu datblygwyr a chwmnïau ag atebion iechyd digidol arloesol gyda GIG Cymru. Mae'r cydweithrediad rhwng Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a GGC yn cael ei ariannu drwy raglen 'effeithlonrwydd drwy dechnoleg' Llywodraeth Cymru.

www.lshubwales.com/cy/eidc



“

Gyda phoblogaeth sy'n tyfu ac yn heneiddio a galwadau cynyddol ar ein gwasanaethau, mae dod o hyd i ffyrdd newydd a gwahanol o wella effeithlonrwydd o fewn y GIG yn hanfodol i ddarparu gofal o ansawdd uchel. Arloesedd systemau, prosesau a chynnyrch yw'r ffordd orau o wneud hyn. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn edrych ymlaen ar weithio'n agos gyda Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i nodi ein heriau blaenoriaeth a sut y gall.

Len Richards,
Prif Weithredwr,
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro



NEWYDD

Y Rhwydwaith Arloesedd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithsol yng Nghymru.

Mae'r Rhwydwaith, sydd yn cael ei lansio ar ddydd Llun 25 Mawrth, wedi cael ei ddatblygu gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a Llywodraeth Cymru i ddwyn ynghyd hyrwyddwyr arloesedd, arweinwyr ac ymarferwyr ar draws y system iechyd a gofal yng Nghymru. Ei nod yw:

- Canfod, rhannu ac arddangos arferion da o ran o ran arloesedd ym maes iechyd a gofal a chefnogi mwy o weithgarwch arloesol.
- Darparu grŵp cyfoedion i genfogi cynlluniau tymor canolig integredig (CTCI) adrannau arloesedd sefydliadau GIG Cymru.
- Rhannu gwybodaeth am gyfleoedd ariannu strategol a lleol ar gyfer arloesedd.
- Paru anghenion clinigol â buddiannau a gallu'r diwydiant.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu Canolfannau Ymchwil, Arloesedd a Gwella ar draws y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.



“

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau atebion cynaliadwy arloesol sydd o fudd uniongyrchol i bobl Cymru. Mae cydweithio'n agos â GIG Cymru yn allweddol. Rwy'n falch iawn o'r cydweithio cadarnhaol rydym eisoes wedi'i fwynhau gyda chydweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac rydym yn edrych ymlaen ar weld hyn yn parhau i gryfhau a thyfu.

Cari-Anne Quinn,
Prif Weithredwr,
Hwb Gwyddorau
Bywyd Cymru



Cyswilt

Os ydych yn gweithio neu'n gwirfoddoli yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, ac os hoffech ddod o hyd i ragor o waith, cysylltwch â Dee Puckett, Pennaeth Ymgysylltu Iechyd a Gofal yn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ar: denise.puckett@lshubwales.com

Gyda 22 mlynedd o brofiad ar draws y GIG a'r sector cyhoeddus yng Nghymru, mae Dee wedi ymrwymo i gefnogi ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i sbarduno newid trawsnewidiol drwy arloesedd. I gael gwybodaeth am ein digwyddiadau, ein fforymau, ein papurau meddwl a'r wybodaeth ddiweddaraf, e-bostiwch hello@lshubwales.com i ymuno â'n rhestr postio.



Amdanom ni

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gyrru newid trawsnewidiol, systemig yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn creu dyfodol gwell i bobl Cymru. Gwyddom fod iechyd a lles economaidd yn mynd law yn llaw. Ein rôl yw ysbrydoli arloesedd a chydweithrediad rhwng diwydiant, iechyd a gofal cymdeithasol, a sefydliadau ymchwil i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl a theuluoedd ledled y wlad.

Rydym yn gatalydd ar gyfer newid. Rydym yn gweithio gyda GIG Cymru i ddeall materion a nodi sut y gall arloesedd helpu i ddarparu gofal gwell. Rydym yn cefnogi busnesau i greu atebion iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn creu cysylltiadau.

Rydym yn galluogi pobl a sefydliadau i weithio gyda ni mewn partneriaeth ac i greu cyfleoedd rhwydweithio a paru i arloeswyr.

Yr hyn a wnawn

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gyrru newid trawsnewidiol, systemig o fewn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn creu dyfodol gwell i bobl Cymru.

Rydym yn datblygu cydberthnasau agos, effeithiol, amlddisgyblaethol â chyrrff iechyd a gofal er mwyn manteisio ar eu harbenigedd, gan ei gwneud yn haws mabwysiadu arloesedd.

Rydym yn nodi ac yn blaenoriaethu piblinell o gyfleoedd arloesol, mabwysiadwy i fodloni heriau iechyd a gofal allweddol.

Rydym yn gwneud y gorau o lwyddiant Cymru wrth ennill cynigion ariannu cymhleth a phwrpasol i gefnogi twf y sector gwyddorau bywyd yng Nghymru.

Rydym yn dod â phartneriaid at ei gilydd i drefnu systemau integredig arloesol, gan weddnewid cynlluniau peilot lleol llwyddiannus yn newidiadau i'r system genedlaethol.

Deall heriau iechyd a gofal

Paratoi diwydiant

Datblygu Ceisiadau

Hwyluso mabwysiad systemau gyfan



Hwb Gwyddorau Bywyd
Life Sciences Hub | Cymru
Wales



Hwb Gwyddorau
Bywyd Cymru
3 Sgŵar y Cynulliad,
Bae Caerdydd
CF10 4PL



02920 467030



www.hwbgbccymru.com/cy